**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 18 Rhagfyr 2002 |
| **Amser:** | 9.15am hyd 12.00pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGAETH WASTRAFF CYMRU**

**Diben**

1. Amlinellu camau gweithredu allweddol Llywodraeth y Cynulliad o ran rhoi ‘Yn Gall gyda Gwastraff’ ar waith a gofyn am gymorth ynghylch rhai dulliau i’w mabwysiadu.

**Cefndir**

2. Cynllun statudol yw ‘Yn Gall gyda Gwastraff’ sy’n bodloni amrywiaeth eang o ofynion domestig a rhai’r UE.

3. Cwblhaodd Uned Strategaeth y Prif Weinidog ei hastudiaeth ynghylch gwastraff domestig yn Lloegr yn ddiweddar. Mae’r adroddiad yn cynnwys argymhellion ynghylch meysydd polisi nad ydynt wedi datganoli, ac yn benodol mesurau ariannol. Cyhoeddodd yr Adroddiad Cyn-Gyllideb diweddar gynigion o ran cynyddu’r Treth Tirlenwi ar gyfer gwastraff ‘gweithredol’ i £35 y tunnell, sef cynnydd o £3 y tunnell y flwyddyn o 2005/06. Y Dreth Dirlenwi bresennol yw £13 y tunnell. Mae’r Adroddiad hefyd yn nodi y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd cyfrifoldeb am gyllid Cynllun Credyd Treth Tirlenwi yng Nghymru yn 2003/04 a all gyfrannu at raglen wario gyhoeddus i annog y rheolaeth o wastraff cynaliadwy.

4. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi fod y Mesur Gwastraff a Gollyngiadau, a gyflwynwyd i’r Senedd, yn cynnwys darpariaeth i’r Cynulliad Cenedlaethol gyflwyno drwy Reoliadau:

- Cynllun lwfans gwastraff domestig pydradwy (BMW) i gyfyngu ar y BMW a dirlenwir gan bob awdurdod lleol; a
- Gofyn statudol i bob awdurdod lleol gynhyrchu Strategaeth Rheoli Gwastraff Domestig a

darparu data ynghylch rheoli gwastraff.

5. Dylid ystyried sut bydd y cynllun lwfans yn gweithio a bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori yn ei gylch yn fuan. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynhyrchu cyfarwyddyd drafft ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch cynlluniau rheoli gwastraff domestig. Gofynnir i Awdurdodau baratoi cynlluniau o'r fath erbyn mis Tachwedd 2003.

6. Rydym wedi cynnal asesiad risg er mwyn ein cynorthwyo i ddeall anawsterau posibl o ran rhoi 'Yn Gall gyda Gwastraff' ar waith. Amlinellir hyn, ynghyd â'r camau gweithredu i sicrhau y gorchfygir unrhyw anawsterau yn effeithiol, yn Atodiadau A-D. Wrth benderfynu ynghylch y camau gweithredu hyn rhoddwyd ystyriaeth i sylwadau Fforwm Gwastraff Cymru yn ei gyfarfod ar 31ain Hydref 2002.

**Materion penodol i'r Pwyllgor eu hystyried**

7. Gofynnir am sylwadau'r Pwyllgor ynghylch y pwyntiau canlynol:

8. Maes gorchwyl diwygiedig Fforwm Gwastraff Cymru Sefydlwyd y Fforwm i gynghori ynghylch datblygiad Strategaeth Wastraff Genedlaethol ar gyfer Cymru. Cynigir yn awr y dylid parhau â'r Fforwm o randdeiliaid gwastraff allweddol er mwyn:

- Cynghori Llywodraeth y Cynulliad ynghylch gweithredu, monitro ac adolygu'r Strategaeth Wastraff o fewn cyd-destun y Cynllun Datblygiad Cynaliadwy;
- Annog datblygiad partneriaethau er mwyn sicrhau y ffordd mwyaf cost-effeithiol o gyflawni'r Strategaeth, lleihau effeithiau amgylcheddol a sicrhau'r manteision cymdeithasol ac economaidd mwyaf;
- Cynghori ynghylch ffyrdd i annog y cyhoedd i dderbyn dulliau newydd o reoli gwastraff.

9. Gwahoddir y Pwyllgor i gyflwyno sylwadau ynghylch amcanion y Fforwm Gwastraff.

10. Cynnydd y trefniadau cynllunio gwastraff rhanbarthol Mae'r tri grp rhanbarthol sy'n cynnwys holl Awdurdodau Unedol Cymru wedi cynhyrchu asesiadau gwastraff rhanbarthol o fewn terfynau amser. Cam nesaf y broses o gynhyrchu cynlluniau gwastraff rhanbarthol yw ystyried opsiynau o ran rheoli gwastraff yn y dyfodol ymhob rhanbarth, natur y cyfleusterau newydd angenrheidiol a'u lleoliadau posibl.
11. Gwahoddir y Pwyllgor i gyflwyno sylwadau ynghylch a ydynt yn ystyried bod y trefniadau cynllunio (gweler Atodiad B am fanylion pellach) yn ddigonol er mwyn sicrhau y datblygir y system rheoli gwastraff angenrheidiol yng Nghymru yn brydlon.

12. Cynllun Gweithredu Busnes Cynaliadwy Fel yr amlinellir yn Atodiad D, mae 'Busnes Cynaliadwy Cymru' yn nodi beth fydd Llywodraeth y Cynulliad a'i brif bartneriaid yn ei wneud er mwyn gwella'r cymorth i fusnesau Cymru wrth iddynt geisio sicrhau tyfiant

economaidd cynaliadwy.

13. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried a oes angen cymryd camau gweithredu pellach er mwyn sicrhau bod busnesau Cymru yn ymateb i'r sialensau ac yn manteisio ar y cyfleoedd y mae'r Strategaeth Wastraff yn eu cynnig.

**Argymhelliad**

14. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r camau gweithredu a gymerir mewn perthynas â meysydd allweddol o fewn y Strategaeth Wastraff ac i gynnig sylwadau.

**Dr.A.W.G.Rees,**

**Uned y Strategaeth Wastraff**

**Rhagfyr 2002**

**ATODIAD A**

**GWELLA'R RHEOLAETH O WASTRAFF DOMESTIG**

Sialensau:

- Cyflawni targedau Cyfarwyddeb y GE o ran ailgylchu gwastraff pecynnu a chyfyngu ar y swm o wastraff domestig pydradwy (BMW) a dirlenwir;
- Sicrhau mai lleihau gwastraff, ailgylchu a chompostio yw'r prif ddulliau a fabwysiedir i gyflawni'r targedau. Argymhellir peidio â gwneud defnydd mawr o ynni o wastraff lle bo'n bosibl;
- Cynyddu'r gwastraff domestig a ailgylchir ac a gompostir o 7% (ffigur 2000/01) i 40% erbyn 2009/10;
- Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir gan gartrefi i lefelau 1998 erbyn 2010;
- Bydd cyflawni targedau uwch 2013 a 2020 o ran dargyfeirio BMW yn golygu ymdrechion sylweddol o ran lleihau gwastraff a lefelau hyd yn oed yn uwch o ailgylchu a chompostio; a/neu ddefnyddio technegau eraill i reoli gwastraff gweddilliol (e.e triniaeth fecanyddol fiolegol[1] neu ynni o wastraff);

Peryglon:

Na fydd awdurdodau lleol yn llwyddo i gyflawni'r targedau oherwydd:

- Y terfynau amser caeth perthnasol a graddfa'r newidiadau sy'n angenrheidiol;
- Methiant i sicrhau cydweithrediad y cyhoedd o ran gwahanu deunyddiau i'w hailgylchu a'u compostio;
- Prinder cyllid ar gyfer buddsoddi i wneud y newidiadau angenrheidiol.

Camau gweithredu Llywodraeth y Cynulliad:

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni'r targedau drwy:

- Y grant arbennig o £67m ar gyfer 2002 hyd 2005;
- Cynhyrchu cyfarwyddyd ar y cyd (â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) ynghylch strategaethau rheoli gwastraff domestig;
- Cymryd rhan yn y 5 prosiect partneriaeth enghreifftiol i ddargyfeirio gymaint â phosibl gan anelu at ailgylchu/compostio dros 50% o wastraff domestig erbyn mis Mawrth 2006 a rhannu arferion gorau o fewn gweddill Cymru;
- Darparu £2.4m yn 2002/03 ar gyfer ailgylchu/gwaredu oergelloedd;
- Darparu £700,000 i gefnogi rhaglen addysg Ymwybyddiaeth am Wastraff yng Nghymru dan arweiniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn partneriaeth â Chadw Cymru'n Daclus.
- Cyfrannu £5000 i gyd-ariannu astudiaeth i safleoedd gwaredu gwastraff y Cynghorau i'w defnyddio gan fasnachwyr ac effeithiau hyn ar gyfraddau ailgylchu.

Monitro cynnydd:

Bwriedir monitro'r cynnydd a wneir o ran cyflawni'r targedau drwy:

- Ymarfer pwerau a awgrymir yn y Mesur Gwastraff a Gollyngiadau i:

- Monitro cydymffurfiaeth awdurdodau lleol â thargedau'r Gyfarwyddiaeth Dirlenwi i leihau ymrwymiadau
- Gorfodi awdurdodau lleol i gynhyrchu strategaethau rheoli gwastraff domestig; a
- Gorfodi awdurodau lleol i gyflwyno data ynghylch gwastraff domestig;

- Ymweld â phob awdurdod i weld pa gamau y mae pob un wedi'u cymryd a pha gyfarwyddyd a chymorth pellach sy'n angenrheidiol.

**ATODIAD B**

**DATBLYGU SEILWAITH DIGONOL AR GYFER CYFLEUSTERAU RHEOLI GWASTRAFF**

Sialensau:

- Mae Cyfarwyddiaeth Fframwaith Gwastraff y GE yn pennu gofyn statudol i Lywodraeth y Cynulliad greu mesurau priodol i sefydlu rhwydwaith integredig a digonol o safleoedd gwaredu gwastraff;
- Bydd y gallu i roi ‘Yn Gall gyda Gwastraff’ ar waith yn llwyddiannus, a phwysleisio’r angen i gydymffurfio â nifer o Gyfarwyddiaethau Gwastraff y GU yn dibynnu’n fawr ar ddatblygu cyfres newydd o gyfleusterau ar gyfer gwahanol fathau o wastraff yng Nghymru;
- Gwrthwynebiad y cyhoedd i gyfleusterau rheoli gwastraff newydd.

Peryglon:

- Ni fydd y buddsoddiad cychwynnol ar gael yn syth;
- Ni fydd y broses cynllunio datblygu yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer cyflawni’r seilwaith sy’n ofynnol yn brydlon;
- Ni fydd y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn rhan o’r Cynlluniau Datblygu Unedol mewn digon o amser er mwyn datblygu’r system sy’n ofynnol

Camau gweithredu Llywodraeth y Cynulliad:

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mabwysiadu’r mesurau canlynol i sicrhau y sefydlir y seilwaith angenrheidiol:

- Sefydlu polisïau a mesurau perthnasol o ran Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 21 Gwastraff (TAN 21);

- Sefydlu 3 "cyd-drefniadau rhanbarthol" awdurdodau cynllunio erbyn mis Mai 2002;
- Cynorthwyo â’r gwaith o gynhyrchu 3 cynllun gwastraff rhanbarthol a fydd yn amodol ar ymgynghori ac a gymeradwyir gan yr awdurdodau lleol perthnasol erbyn mis Tachwedd 2003;

- Y gofyn i gynnwys Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn y Cynllun Datblygu Unedol cyn gynted â phosibl;
- Darperir cymorth ariannol i fuddsoddi mewn cyfleusterau gwastraff newydd drwy wahanol gynlluniau cyllid y Cynulliad, gan gynnwys Mesur 4 Blaenoriaeth 6 Amcan 1 (System Amgylcheddol), Cymorth Rhanbarthol Dewisol, Grant Buddsoddi’r Cynulliad ac ati;

- Darperir cymorth i’r diwydiant rheoli gwastraff yng Nghymru drwy raglen Nwyddau a Gwasanaethau Amgylcheddol Awdurdod Datblygu Cymru.

Monitro

Bydd Uned y Strategaeth Wastraff yn monitro'r gwaith o sefydlu'r seilwaith a'r ffordd y mae Cynlluniau Datblygu Unedol awdurdodau lleol yn cyflwyno gofynion TAN 21. Telir sylw arbennig i'r amod fod yn rhaid i Gynlluniau Datblygu Unedol sicrhau y pennir safleoedd neu wahanol leoliadau ar gyfer y cyfleusterau rheoli gwastraff sy'n ofynnol.

**ATODIAD C**

**DATBLYGU MARCHNADOEDD DIGONOL AR GYFER DEUNYDDIAU WEDI'U HAILGYLCHU A CHOMPOST**

Sialensau:

Bydd camau gweithredu gan awdurdodau lleol a busnesau i gynyddu ailgylchu a chompostio yn arwain at dunelli ychwanegol o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu a chompost yng Nghymru. Bydd yn ofynnol ehangu'r marchnadoedd presennol a datblygu rhai newydd ar gyfer y deunyddiau 'eilaidd' hyn.

Peryglon:

- Efallai na fydd marchnadoedd lleol a phriodol yn cael eu datblygu ar yr un cyflymder â'r deunyddiau a gynhyrchir;

- Mae'r gwaith o fonitro'n ymarferol ddatblygiad y farchnad yn anodd yn sgîl nifer y sefydliadau ar draws Cymru sy'n gysylltiedig.

Camau gweithredu Llywodraeth y Cynulliad:

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno'r mesurau canlynol i sicrhau y sefydlir y marchnadoedd angenrheidiol ar gyfer deunyddiau wedi'u hailgylchu a chompost:

- cyfrannu £1.65m tuag at gyllid cyffredinol Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau'r DU (WRAP) o £55.5m ar gyfer 2001-2004;

- cyfrannu £200,000 tuag at brosiect £1.65m "Creu Marchnadoedd Cymreig ar gyfer Deunyddiau wedi'u Hailgylchu" (CWMRe) a gynhelir gan Ymddiriedolaeth Yr

Amgylchedd Cymru (WET) â chyllid arall o Amcan 1 a 2, a Chredydau Treth Tirlenwi;

- sicrhau y darperir cyfarwyddyd i'r sector cyhoeddus ynghylch pwrcasu deunyddiau wedi'u hailgylchu a'u compostio;

- rhoi mentrau ar waith i ehangu'r defnydd o agregau eilaidd yng Nghymru.

Monitro:

Bydd Uned y Strategaeth Wastraff, ar y cyd ag Awdurdod Datblygu Cymru, Ymddiriedolaeth Yr Amgylchedd Cymru a Rhaglen Weithredu Gwastraff ac Adnoddau y DU yn monitro datblygiad marchnadoedd ailgylchu a chompostio yng Nghymru gystal â phosibl o ran cyflenwi deunyddiau o'r ffynonellau gwastraff domestig, masnachol a diwydiannol.

**ATODIAD D**

**YMATEB BUSNES I'R SIALENSAU A'R CYFLEOEDD.**

Sialensau/cyfleoedd:

Y Strategaeth:

- nid yw'n gosod unrhyw feichiau ychwanegol ar fusnesau yng Nghymru y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes yn berthnasol yn sgîl deddfwriaeth bresennol a newydd yr UE a'r DU;
- mae'n herio ac yn annog busnesau i gyflawni targedau rheoli gwastraff cynaliadwy. Pennwyd llawer o'r rhain mewn ymateb i gyfeiriad tebygol deddfwriaeth newydd y GE ynghylch gwastraff;
- mae'n amlinellu beth y bydd yn rhaid i fusnesau ei wneud i fodloni gofynion deddfwriaeth diweddar a newydd y DU a'r GE;
- mae'n pennu llawer o gyfleoedd i arbed arian a dod yn fwy cystadleuol drwy fabwysiadu rhagor o arferion rheoli gwastraff cynaliadwy
- mae'n pennu fod cyfleoedd sylweddol yn ogystal ar gyfer busnesau a all ddarparu atebion o ran rheoli gwastraff cynaliadwy ar gyfer cwmnïau eraill.

Peryglon:

Ceir perygl y gallai diffyg ymwybyddiaeth a phrinder o'r cymorth angenrheidiol olygu na fydd busnesau yng Nghymru yn llwyddo i ateb y sialensau a bennir yn y Strategaeth, ac na fyddant yn manteisio ar y cyfleoedd.

Camau gweithredu Llywodraeth y Cynulliad:

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn hyrwyddo’r camau gweithredu canlynol i alluogi busnesau i ateb y sialensau a’r cyfleoedd yn bennir yn ‘Yn Gall gyda Gwastraff’:

- dosbarthu cynllun gweithredu ‘Busnes Cynaliadwy Cymru’[2] sy’n nodi beth fydd Llywodraeth y Cynulliad a’i brif bartneriaid yn ei wneud i wella cymorth ar gyfer busnesau Cymru wrth iddynt geisio annog tyfiant economaidd cynaliadwy;

- sicrhau y darperir rhaglen lleihau gwastraff Envirowise UK yn effeithiol yng Nghymru;
- Cefnogi cynllun Safonol (Rheolaeth Amgylcheddol) y Ddraig Werdd;
- darparu £0.5m i raglen gynnal amgylchedd "Rheolaeth Amgylcheddol i Gymru" er mwyn ceisio cyflawni’r targed o 500 busnes yn rhoi Systemau Rheoli Amgylcheddol ar waith yng Nghymru;
- cefnogi Rhaglen Nwyddau a Gwasanaethau Amgylcheddol Awdurdod Datblygu Cymru sy’n nodi fod rheoli gwastraff yn sector allweddol;
- codi ymwybyddiaeth yn gyffredinol e.e. drwy seminarau, erthyglau yn y cyfryngau a gwefan arbennig.

Monitro

Bydd angen pennu ffyrdd o fonitro ymateb busnesau i’r sialensau a’r cyfleoedd a bennir yn y Strategaeth Wastraff wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Busnes Cynaliadwy terfynol.